EUSWNC15

Rheoli cysylltiadau prif bibelli dŵr llinellol (in-line) mewn cytundeb â chwmnïau dŵr

## Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â rheoli cysylltiadau prif bibelli dŵr llinellol (in-line) mewn cytundeb â chwmnïau dŵr. Mae hyn yn golygu cael caniatâd gan gwmnïau dŵr, cyfathrebu â chwmnïau dŵr yn ystod ac ar ôl cwblhau'r gwaith, cyflawni cysylltiadau byw yn unol â gweithdrefnau cymeradwy er mwyn diogelu ansawdd y dŵr a dibynadwyedd rhwydweithiau dŵr.

Mae'r Safon hon ar gyfer gweithwyr adeiladu rhwydweithiau dŵr sy'n rheoli cysylltiadau prif bibelli dŵr llinellol (in-line) mewn cytundeb â chwmnïau dŵr.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael gafael ar wybodaeth am waith ar gysylltiadau prif bibelli gan ffynonellau dibynadwy
   1. cwblhau ceisiadau i'r cwmni dŵr yn brydlon er mwyn cael caniatâd i wneud gwaith cysylltu prif bibelli

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. rheoleiddwyr dŵr a'u rôl
2. goblygiadau cyfreithiol llygru cyflenwad dŵr cyhoeddus
3. y Cod Ymarfer a'r manylebau cenedlaethol a phenodol i gyfleustod dŵr ar gyfer gwneud cysylltiadau prif bibelli dŵr linellol arferol
4. gofynion ble mae sefydliadau hunan osod yn gallu gwneud cysylltiadau dŵr arferol
5. sut i ddehongli darluniau, cofnodion, dogfennau gwaith, llawlyfrau, a manylebau technegol
6. gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gosod systemau dosbarthu dŵr
7. eich rolau a'ch cyfrifoldebau chi a chynrychiolwyr cwmnïau dŵr
8. gweithdrefnau cwmnïau dŵr a gweithdrefnau sefydliadol o ran cysylltu i rwydweithiau byw
9. mathau cymeradwy o gysylltiad
10. sut i ddefnyddio'r offer ar gyfer cysylltiadau prif bibelli
11. gweithdrefnau uniadu cymeradwy
12. gweithdrefnau hylendid mewn perthynas â sicrhau dibynadwyedd a glanweithdra cyflenwadau dŵr a phwysigrwydd hylendid personol
13. deddfwriaeth iechyd a diogelwch berthnasol gan gynnwys y mathau o gyfarpar diogelu personol a sut i'w defnyddio
14. signalau ac arwyddion cymeradwy ar gyfer sicrhau bod y man gweithio yn ddiogel
15. gweithdrefnau'r cwmni a phwy sy'n gyfrifol am beth o ran trosglwyddo a chofnodi gwybodaeth
16. sut i drosglwyddo gwybodaeth dechnegol gan ddefnyddio diagramau a chyfarwyddiadau ysgrifenedig
17. gweithdrefnau cymeradwy sydd i'w dilyn mewn argyfwng

EUSWNC15

Rheoli cysylltiadau prif bibelli dŵr llinellol (in-line) mewn cytundeb â chwmnïau dŵr

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Energy & Utility Skills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Rhag 2018 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Rhag 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Energy & Utility Skills |
| **RCU gwreiddiol** | NCO221 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithiwr Adeiladu Rhwydwaith Dŵr, Peiranneg, Goruchwyliwr Adeiladu Rhwydwaith Dŵr |
| **Cyfres/Set** | Gweithrediadau Adeiladu Rhwydwaith Dŵr |
| **Geiriau Allweddol** | diogel, prif bibelli, cysylltiadau, cymwys, dŵr, cyfleustod, cyfleustodau, llinellol, rhwydwaith, adeiladu, gweithrediadau, hunan osod, uwch |